

## Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Mari Jones (Llansannan) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei mam y penwythnos diwethaf. Wrth gydymdeimlo, yr ydym hefyd yn gweddïo y bydd Duw yn cysgodi dros y teulu, yn arbennig dros y diwrnodau nesaf.
- Anfonwn ein cofion hefyd at John Llewelyn Jones (Llansannan) sydd wedi bod yn cael triniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyd yr wythnos. Cyflwynwn ef a'i deulu, a phawb arall sy'n derbyn triniaeth ar hyn o bryd, i ofal yr Arglwydd a gweddïwn y byddant oll yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal yn eu hangen.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Bessie Owens, Cefn Berain (Llanrhaeadr Hall); Mrs Elsie May Edwards, Llansannan a Mrs Kitty Parry, Llanefydd (Yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur); Miss W. J. Roberts, Cefn Meiriadog a Mrs Edith Maloney, Henllan (Yr Hen Ddeondy, Llanefydd); Mrs Morfudd Williams, Henllan (Tŷ Cariad, Abergele); Mrs Gwenfyl Williams, Llansannan (Bryn yr Eglwys, Pentrefoelas); a Mrs Elizabeth Hughes, Llansannan (Plas Eleri, Dinbych). Diolchwn am y gofal y maen nhw'n ei dderbyn a gobeithiwn eu bod yn profi gofal a grym ein gweddïau drostynt.

## Gwaith Cwrs Ysgolion Sul Henaduriaeth Dyffryn Clwyd 2017

Gair i'ch atgoffa am fanylion gwaith cwrs yr Ysgolion Sul. Y dasg a osodwyd i'r plant a'r ieuencid eleni yw cywaith unrhyw gyfrwng ar y thema **'Gwyrthiau'**. Gofynnir am gywaith gyda'r holl blant wedi cyfrannu ato mewn unrhyw gyfrwng, e.e. gwaith ymchwil, ysgrifennu stori, dramodig, poster, gweddi, sgwrs ar dâp, sribed cartwn, cyflwyniad PowerPoint. Bydd arddangosfa o'r gwaith yn cael ei greu ar gyfer yr Henaduriaeth fydd yn cyfarfod yn Llanefydd ar Mai 12fed, pryd cyflwynir tystysgrifau, a bydd sgwrs, lluniaeth ysgafn ac adloniant i'r plant i ddiweddu'r noson.

Ar gyfer yr oedolion, gofynnir am gyflwyniad ar yr un thema – **'Gwyrthiau'**. Os yn cyflwyno traethawd, dylid cyfyngu i ddim mwy na 1,000 o eiriau, neu gellir cyflwyno gwaith llaw neu arddangosfa flodau. Os am gyflwyno arddangosfa flodau, gofynnir i chi ddod â'r gosodiad ar y noson wobrwyo yn unig a gadael i Meirwen Hughes (01745 823802), yr ysgrifennydd, wybod ymlaen llaw er mwyn cael rhoi eich enwau yn yr adroddiad. Pob hwyl wrth baratoi'r gwaith!

Bydd angen i'r cyweithiau fod yn barod **erbyn Ebrill 10fed**.

## I ddod

- **HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn cyfarfod yng Nghapel Mawr, Dinbych nos Fercher, Mawrth 15fed (sylwch ar y noson): Pwyllgor Gwaith am 4.30, a Gwaith yr Henaduriaeth am 6.00.
- **CYMDEITHAS CHWIORYDD BRO ALED** – Noson o dan arweiniad Sarah Dafydd nos Iau, Mawrth 30ain yng Nghapel Llanefydd am 7.00.



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 5<sup>ed</sup> Mawrth 2017

Darlleniad y Dydd

1 Cronicl 29:10-13

(BCND tud.393 / BCN tud.359)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Bore da a chroeso i oedfaon Bro Aled heddiw. Wrth i ni ymgynnull at ein gilydd i foli a rhoi ein hunain o dan awdurdod Y Gair, darganfyddwn fod iaith yn rhy gyfyngedig i gyfleu mor fawr ac mor hyfryd ydy'r Un Duw Byw.

Wythnos dwytha, daeth ein darlleniad o lyfr yr Actau gan ystyried mor rhyfeddol ydy gwaith Duw, yn enwedig wrth newid bywydau pobl – ein bywydau ni. Roedd ein haddoliad a'n rhyfeddod yn deillio o'r ffaith fod Duw ar waith. Yr wythnos yma, cawn yr un rhyfeddod wrth i'r brenin Dafydd foli'r Arglwydd o flaen ei bobl.

Gan ei bod hi'n ganol tymor cystadleuaeth rygbi'r chwe gwlad, does dim angen esgus arnaf i siarad am rygbi – peidiwch â phoeni, nid trafodaeth fanwl o dactegau tîm Cymru sydd gen i! Rhywbeth sy'n cael ei ddweud yn aml am rygbi ydy'r ffordd mae'r chwaraewyr yn parchu'r dyfarnwr, tra, mewn chwaraeon eraill, bod rhai oedolion yn troi yn blant bach os oes penderfyniad yn mynd yn eu herbyn. Mae chwaraewyr rygbi naw gwaith allan o ddeg yn parchu'r dyfarnwr ac nid yn amau ei benderfyniadau. Pam maen nhw'n gwneud hyn? Mae'r dyfarnwr yn cael parch y chwaraewyr, am mai fo neu hi ydy'r dyfarnwr. Fo yn unig sy'n rheoli'r gêm, yn cosbi troseddau ac yn cadw'r chwaraewyr yn saff. Yn syml, mae'n cael parch am mai y fo ydy'r dyfarnwr, nid am sut mae'n perfformio fel dyfarnwr.

Os edrychwn ar foliant Dafydd o'i Frenin, gwelwn ei fod yn moli'r Arglwydd oherwydd mai y fo ydy Duw. Mae Dafydd, brenin yr Israeliaid, yn cydnabod mai oddi wrth Dduw mae pob nerth a bendith yn dod. Ni ddylai ein moliant ddibynnu ar ein hemosiynau na'n hwyliau, ond, yn hytrach, ddibynnu ar berffeithrwydd godidog yr Arglwydd. Mae'r Arglwydd yn haeddu moliant am mai Efe Yw (Ecsodus 3:14; Ioan 8:56)

Fel mae Eseciel yn mynd ar ei wyneb i addoli ysblander yr Arglwydd, felly dylem ninnau. Dewch i ni heddiw addoli'r Arglwydd am ei fod yn haeddu ein moliant. Er ein bod ni'n wan, mae o'n gryf, yn odidog ac enwog (1 Cronicl 29:11 Beibl.net). Er ein bod ni'n teimlo'n israddol, mae o'n ben ar y cwbl i gyd. Er fod y byd yn aml yn teimlo allan o'n rheolaeth, mae o'n rheoli'r cwbl. Er ein bod ni'n blino, mae o'n rhoi nerth i bobl. Ym mhob sefyllfa, cyngor Duw i ni ydy "Ymlonyddwch, a deallwch mai myfi sydd Dduw, yn ddirchafedig ymysg y cenedloedd, yn ddirchafedig ar y ddaear." (Salm 46:10)

**DILYNWCH NI:** @eglwysibroaled

*Gwion*

**Darlleniad Wythnos Nesaf**

1 Pedr 2:1-6 (BCND tud.256 / BCN tud.235)

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 5<sup>ed</sup> ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 8<sup>fed</sup> ➤ **Torri Syched y Merched** – seiat yn Heulfryn am 7.30.
- Iau – 9<sup>fed</sup> ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener – 10<sup>fed</sup> ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Gwener – Sul 10<sup>fed</sup> – 12<sup>fed</sup> ➤ **Arfogi** – Penwythnos yng Ngholeg y Bala i annog ac arfogi myfyrwyr ac oedolion ifanc o bob rhan o Gymru. Cysylltwch â'r Coleg i archebu lle: 01678 520565 / [colegybala@ebcpw.org.uk](mailto:colegybala@ebcpw.org.uk).
- Sul nesaf – 12<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwawr Derwen Deg, a bydd Gwion yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 5<sup>ed</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yn Llanfair am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yno am 11.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd yr Ysgol Sul yno am 2.00.
- Sul nesaf – 12<sup>fed</sup> ➤ Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 5<sup>ed</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Mercher – 8<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **erbyn dydd Sul, Mawrth 5ed**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 12<sup>fed</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 5<sup>ed</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yn Saron ac ym Mheniel am 10.00. Bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 12<sup>fed</sup> ➤ Bydd Teulu Tan y Graig yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Saron am 2.00 (sylwch ar y newid amser). Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 5<sup>ed</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yn Groes am 10.00 ac Ysgol Sul am 2.00. Yng Nghapel Henllan, bydd yr Ysgol Sul am 10.00 a chynhelir Gwasanaeth Gŵyl Ddewi Undebol am 2.00, gyda phaned i ddilyn.
- Mercher – 8<sup>fed</sup> ➤ Swper Gŵyl Ddewi Henllan yng Nghlwb Golff, Dinbych am 7.30 gyda Steffan a Tudur Parry yn diddanu. Enwau i Marian (812439) **erbyn dydd Sul, Mawrth 5ed**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 12<sup>fed</sup> ➤ Bydd Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 5<sup>ed</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yn Llanefydd ac yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgolion Sul yn cydreddeg.
- Sul nesaf – 12<sup>fed</sup> ➤ Bydd Dewi Williams yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.15. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00.

### Manylion Cyswilt

- Rhodri – 📧 [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
- Gwion – 📧 [gwion@eglwysibroaled.com](mailto:gwion@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
- Mair – 📧 [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

### Eglwysi Bro Aled

**Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.**